# City & Guilds Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## Tasg C – Asesiad

*Sampl*

# Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr

Ar gyfer y dasg hon bydd angen i chi ystyried sut rydych chi'n hybu llais a rheolaeth unigolion.

Y **meysydd testun** sy'n gysylltiedig â'r dasg hon yw:

- Urddas a pharch
- Dinasyddiaeth a chynhwysiant
- Eiriolaeth a chydgynhyrchu

Cyflwynir senario i chi yn y pecyn hwn y bydd angen i chi ei darllen a'i hystyried. Byddwch chi hefyd yn darllen nifer o adroddiadau gan unigolion mewn perthynas â'r senario.

Unwaith y byddwch chi wedi darllen y senario a'r adroddiadau, dylech chi ateb y cwestiynau sydd wedi'u darparu.

Bydd gennych chi hyd at **60** munud i **baratoi** eich ymatebion i'r cwestiynau, ac yna bydd gennych chi hyd at **30** munud i roi'r ymatebion hyn i'ch aseswr **ar lafar**.

# Cwestiynau

- Sut mae'r meysydd testun yn berthnasol i'r senario, a pham?

- Beth yw'r prif gasgliadau rydych chi wedi dod iddyn nhw ar ôl adolygu'r senario hon ac ar ôl ystyried y meysydd testun, a pham?

- Wrth ystyried y meysydd testun, allwch chi ddisgrifio rhai gwerthoedd a sgiliau cyfathrebu eraill a allai fod wedi cyflawni canlyniad mwy cadarnhaol ar gyfer yr unigolion yn y senario hon?

# Senario

*"Mae canolfan ddydd i bobl ifanc a chanolfan gymunedol yn cefnogi nifer mawr o unigolion mewn tref fach. Mae'r ganolfan wedi rhoi gwybod yn ddiweddar y bydd ei lleoliad yn symud yn fuan. Bydd yn symud o ganol y dref i bentref cyfagos. Mae hefyd wedi cadarnhau y bydd ei diwrnodau a'i horiau gweithredu yn cael eu diwygio o ganlyniad i hynny."*



IAN – Arweinydd a Rheolwr y Gwasanaeth

“Roedd yn rhaid i mi wneud y penderfyniad o ran symud y gwasanaeth. Rydym wedi cael toriadau mawr yn ein cyllid, felly nid oedd unrhyw ddewis arall ond symud i rywle arall. Gan nad oedd unrhyw beth arall y gallem fod wedi ei wneud, nid oeddwn yn gweld pwynt ei drafod ymhellach."



MAIR – Aelod o'r staff

“Nid oedd gennyf syniad beth oedd yn digwydd. Dim ond pan ofynnodd un o'r rhieni i mi beth oedd yn digwydd gan ei bod wedi cael llythyr y cefais i wybod.

Sut y gallaf gyflawni fy swydd a chyfleu'r newid hwn os nad ydw i'n gwybod beth sy'n digwydd?"



OSIAN – Unigolyn

“Roeddwn i wedi dod i'r arfer â mynd i'r ganolfan hon. Roeddwn i'n hoff iawn ohoni. Cefais i wybod heddiw na fyddwn yn mynd yno mwyach. Mae'n rhaid i mi fynd i rywle arall yn ôl y sôn, ond ni ofynnodd neb i mi os mai dyna roeddwn i am ei wneud.”



RHIANNON – Rhiant

“Nid oedd gennym unrhyw syniad bod hyn yn digwydd. Rydym mewn cymaint o sioc. Rydym yn siomedig iawn gan ein bod yn gweld pa mor ofidus yw ein plentyn. Yn ogystal â'r sgil-effeithiau o newid y gwasanaeth, rydym hefyd yn delio â'r effaith ar ein plentyn. Beth oedden nhw'n ei feddwl?!”